Hysbysiad Prosesu Teg:
Beth mae'r Ysgol, yr Awdurdod Lleol, y Gwasanaeth Addysg Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru'n ei wneud gyda'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu a'i chadw ganddynt am ddisgyblion.

Pwnc:
Mae'r daflen hon yn nodi beth y gall ysgolion, Awdurdod Lleol Sir Ddinbych, Consortiwm Rhanbarthol Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru ei wneud gyda'ch data personol chi/eich plentyn a gwybodaeth am berfformiad.

Casglu gwybodaeth bersonol:
Mae ysgolion yn casglu gwybodaeth am ddisgyblion newydd a'u rheini neu warcheidwaid cyfreithiol. Mae ysgolion yn casglu gwybodaeth ar adegau eraill o'r flwyddyn ysgol a daw gwybod i law hefyd gan yr ysgol flaenorol y trosglwyddodd y disgybl ohoni.

Mae'r Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru'n cael gwybodaeth am ddisgyblion gan ysgolion, fel arfer fel rhan o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) sy'n digwydd ym mis Ionawr bob blwyddyn.

Mae'r ysgol, yr Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru'n cael gwybodaeth am arholiadau, asesiadau cwricwlwm cenedlaethol a chanlyniadau profion.

Gwybodaeth bersonol sy'n cael ei chadw:
Mae'r math o wybodaeth bersonol a gedwir yn cynnwys;
- manylion personol fel enw, cyfeiriad, dyddiad geni a manylion cyswllt rhieni a gwarcheidwaid;
- gwybodaeth am berfformiad asesiadau ac arholiadau mewnol a chenedlaethol;
- gwybodaeth am darddiad ethnig a hunaniaeth genedlaethol disgyblion (defnyddir y rhain i baratoi dadansoddiad ystadegol cryno'n unig);
- gwybodaeth feddygol ofynnol i gadw disgyblion yn ddiogel tra byddant yng ngofal yr ysgol;
- gwybodaeth am bresenoldeb ac unrhyw gam disgyblu a gymerwyd;
- gwybodaeth am Waharddiadau o'r ysgol ac unrhyw gam disgyblu;
- ceisiadau derbyn a chludiant;
- gwybodaeth am rôl y gwasanaethau cymdeithasol gyda disgyblion unigol lle bo angen hyn ar gyfer gofal y disgybl.

Sut caiff y wybodaeth bersonol ei storio
Cronfeydd data electronig; SIMS, One, DEWi,

Defnyddio a rhannu gwybodaeth bersonol
Mae'r **Ysgol** yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir i weinyddu'r addysg y mae'n ei rhoi i ddisgyblion. Er enghraifft, i:
- ddarparu gwasanaethau addysgol i unigolion;
- monitro ac adrodd ar gynnydd addysgol disgyblion;
- darparu gofal lles a bugeiliol a gwasanaethau iechyd;
- cefnogi a rhoi arweiniad i ddisgyblion, eu rhieni a'u gwarcheidwaid cyfreithiol;
- trefnu digwyddiadau a thripiau addysgol;
- rheoli'r ysgol ac ar gyfer cynllunio yn y dyfodol.

Mae'r **Awdurdod Lleol** yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir i wneud ymchwil a chefnogi'r ddarpariaeth o wasanaethau Addysg ac sy'n gysylltiedig â lles. Mae canlyniadau ymchwil yn cael eu

defnyddio i wneud penderfyniadau ar bolisi ac ariannu ysgolion, i gyfrifo perfformiad ysgolion ac i helpu i osod targedau. Caiff yr ymchwil ei wneud mewn ffordd sy'n sicrhau na all disgyblion unigol gael eu hadnabod. Caiff gwybodaeth bersonol ei chadw mewn cronfa ddata (angen rhywbeth am gofnod disgyblion unigol)

Mae Sir Ddinbych yn gweithio mewn partneriaeth â Chonsortiwm Rhanbarthol Gogledd Cymru ac mae Protocol Rhannu Gwybodaeth cymeradwy ar waith, sy'n bodloni fframwaith Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru. Mae'r Protocol Rhannu Gwybodaeth yn cefnogi rhannu gwybodaeth bersonol yn rheolaidd, sydd wedi'i chadw mewn systemau gwybodaeth rheoli electronig mewn ysgolion ac Awdurdodau, i ddarparu gwasanaethau addysg a chefnogi.

Gwasanaethau Addysg Rhanbarthol
Bydd yr ysgol a'r Awdurdod Lleol yn rhannu gwybodaeth gyda gwasanaethau addysg rhanbarthol ar gyfer y dibenion canlynol, ac er budd:

- Cynnal data cywir.
- Darparu gwasanaethau addysg – rhanbarthol a lleol.
- Darparu ffurflenni statudol, Consortiwm ac Awdurdod.
- Dadansoddi ac adrodd ar berfformiad disgyblion, ysgolion, gwasanaethau, Awdurdodau a'r Consortiwm.

Caiff gwybodaeth ei rhannu gyda Byrddau Iechyd ac ysbytai arbenigol i hysbysu diagnosis meddygol/darpariaeth gwasanaeth, yn ogystal â nodi a darparu cefnogaeth addysgol berthnasol ac wedi'i thargedu, sy'n ystyried cyflyrau meddygol

Mae **Llywodraeth Cymru'n** defnyddio'r wybodaeth a gesglir i gynnal ymchwil ac i gefnogi'r ddarpariaeth o wasanaethau addysgol. Mae ymchwil yn llywio newidiadau polisi addysgol ac arian. Caiff yr ymchwil ei wneud mewn ffordd sy'n sicrhau na all disgyblion unigol gael eu hadnabod. Gellir gweld esiamplau o'r math o ystadegau a gynhyrchir ar http://gov.wales/topics/educationandskills/?lang=cy neu www.cymru.gov.uk/ystadegau
Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn defnyddio'r wybodaeth am ddisgyblion a gesglir i gefnogi'r ddarpariaeth o wasanaethau addysgol, fel y llwyfan dysgu cenedlaethol, Hwb+.

Sefydliadau a all rannu gwybodaeth bersonol:
Gall gwybodaeth a gedwir gan yr Ysgol, yr Awdurdod Lleol, Consortiwm Rhanbarthol Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru am ddisgyblion, eu rhieni neu eu gwarcheidwaid cyfreithiol gael ei rhannu â sefydliadau eraill pan fo'r gyfraith yn caniatáu, er enghraifft gyda:

- chyrff addysg neu hyfforddiant arall, gan gynnwys ysgolion a cholegau, pan fydd disgyblion yn ymgeisio am gyrsiau, hyfforddiant, trosglwyddo ysgol neu geisio arweiniad ar gyfleoedd;
- cyrff sy'n ymchwilio ar ran Llywodraeth Cymru, yr Awdurdod Lleol ac ysgolion, er enghraifft Gyrfa Cymru, ar yr amod bod camau'n cael eu cymryd i ddiogelu'r wybodaeth;
- llywodraeth ganolog a lleol i gynllunio a darparu gwasanaethau addysgol;
- gwasanaethau cymdeithasol a sefydliadau iechyd a lles eraill, lle mae angen rhannu gwybodaeth i ddiogelu a chefnogi disgyblion unigol;
- cyrff rheoleiddio amrywiol, fel ombwdsmon ac awdurdodau arolygu, lle bo'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol bod gwybodaeth yn cael ei phasio ymlaen fel y gallant wneud eu gwaith.

Gwybodaeth Arall:

Bydd Ysgolion, yr Awdurdod Lleol, Consortiwm Rhanbarthol Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru'n ceisio sicrhau fod yr wybodaeth yn gywir ac yn ddiogel. Gall gwybodaeth bersonol gael ei rhannu gyda'r Ardal Economaidd Ewropeaidd. Mewn rhai achosion, gall y data personol gael ei rannu'r tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd ar yr amod bod y wlad neu'r diriogaeth y tu allan i'r Ardal hon yn sicrhau lefelau diogelu priodol, ar gyfer hawliau a rhyddid unigolion wrth brosesu eu data personol, fel y diffinnir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Eich hawliau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998:
Mae Deddf Diogelu Data 1998 yn rhoi hawliau penodol i unigolion o ran gwybodaeth bersonol a gedwir amdanynt gan unrhyw sefydliad. Mae'r hawliau hyn yn cynnwys:

- yr hawl i ofyn am gopïau a chael copïau o wybodaeth bersonol a gedwir amdanoch **chi**, er weithiau gall ychydig o wybodaeth gael ei thynnu'n ôl yn gyfreithlon;
- yr hawl, mewn rhai amgylchiadau, i atal gwybodaeth bersonol rhag cael ei phrosesu os byddai gwneud hynny'n peri niwed neu drallod;
- yr hawl i ofyn am gael unioni gwybodaeth anghywir;
- yr hawl i ofyn am iawndal os nad yw sefydliadau yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998 a'ch bod chi'n bersonol yn profi niwed;
- mewn rhai amgylchiadau, *gall* rhiant neu warcheidwad disgybl fod â'r hawl i gael copi o ddata personol a gedwir am ddisgybl yn eu gofal cyfreithiol. Bydd achosion o'r fath yn cael eu hystyried ar sail unigol lle ystyrir nad oes gan yr unigolyn ddealltwriaeth ddigonol o'u hawliau o dan y Ddeddf.

Mae gennych yr hawl hefyd i holi'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n gorfodi ac yn goruchwylio Deddf Diogelu Data 1998, i asesu a yw prosesu gwybodaeth bersonol yn debygol o gydymffurfio â darpariaethau'r Ddeddf ai peidio.

Ceisio gwybodaeth bellach:
I gael rhagor o wybodaeth am y wybodaeth bersonol a gesglir a'i defnydd, os oes gennych bryderon ynghylch cywirdeb gwybodaeth bersonol, neu'n dymuno gweithredu'ch hawliau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998, dylech gysylltu â:

- Phennaeth eich ysgol / ysgol eich plentyn;
- Cyngor Sir Ddinbych ar 01824 706101;
- Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru – Protocol Rhannu Gwybodaeth ar gyfer Awdurdodau Gogledd Cymru a'u Hysgolion V 1.0
- Y Swyddog Diogelu Data yn Llywodraeth Cymru yn: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ;
- Llinell gymorth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar 01625 545745;
- mae gwybodaeth ar gael hefyd o www.ico.gov.uk